# Mae'r llu'n dweud...

Mae gan Gwent ddwy Ardal Blismona Leol sy'n gydnaws â phump awdurdod lleol yn cwmpasu 1554 cm2 gyda phoblogaeth gynyddol o 581,789. Mae bron i 4% yn gymysg, du a lleiafrifol ethnig. Mae'r sir yn amrywiol o safbwynt economaidd a diwylliannol ag ardaloedd o gyfoeth ac amddifadedd. Diffinnir 11% fel y rhai â'r amddifadedd mwyaf ag enillion wythnosol gros cyfartalog sy'n is na chyfartaledd Cymru a'r DU.

Mae gan ardal y llu drefi gwledig, cefn gwlad ac ardaloedd trefol yn cynnwys Dinas Casnewydd (amrywiaeth ethnig, rheilffordd brif linell, tîm pêl-droed, cyfleusterau manwerthu a hamdden, porthladd diwydiannol a Phrifysgol). Mae meintiau uchel o draffig sy'n defnyddio'r M4 a phrosiectau adfywio mawr yn cyflwyno buddion a chymhlethdodau.

Mae'r broses o weithredu'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol ar gyfer Swyddogion Heddlu wedi caniatáu inni recriwtio swyddogion newydd ac ar hyn o bryd rydym 3.5 yn uwch o ran swyddogion heddlu a staff na llynedd. Ar hyn o bryd mae Heddlu Gwent yn cyflogi 1165 o swyddogion heddlu cyfwerth â llawn amser, 129 o swyddogion PCSO a 557 o staff heddlu. Yn ystod 2015-16 ymatebodd y llu i 192,948 o ddigwyddiadau a 35,690 o droseddau. Mae trais heb niwed, troseddau rhywiol a seiberdroseddu'n dal i godi. Mae Gwent yn gosod pwyslais uchel ar amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

Mae rhaglen uchelgeisiol o newid yn dal i gyflwyno heriau a gwnaed gwaith sylweddol i ddeall galw, symleiddio gwasanaethau a rhoi adnoddau lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn wedi galluogi capasiti ar gyfer blaenoriaethau lleol a chenedlaethol tra bod buddsoddiad mewn hyfforddiant, technoleg a lles staff, ynghyd â sylfaen o weithio ar lefel uwch mewn partneriaeth a diwylliant a yrrir gan werth, yn golygu bod y llu mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion cymunedol a thirlun troseddol cyfnewidiol.

Mae Gwent yn ymrwymedig i'r Ddeddf Lles ac Adfywio'r Dyfodol yng Nghymru sy'n golygu gyriad mwy tuag at un gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn wedi ychwanegu cymhlethdodau i'r llu fel gwasanaeth heb ei ddatganoli o fewn tirlun datganoledig. Bydd aildrefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru a thoriadau pellach ar wasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno pwysau ychwanegol.

**Ymwadiad: mae'r datganiad uchod wedi'i baratoi gan Heddlu Gwent. Nid yw'r barnau a'r wybodaeth arno o angenrheidrwydd  yn cyfateb i farn yr HMIC.**

## Mae HMIC yn dweud...

Mae Heddlu Gwent yn darparu gwasanaethau plismona i sir Gwent. Mae ardal yr heddlu'n cynnwys 600 o filltiroedd sgwâr ag oddeutu 50 milltir o forlin yn ne Cymru. Er bod rhai ardaloedd yn fwy cefnog, mae gan Gwent lefel uchel o dlodi. Mae oddeutu 0.6 miliwn o bobl yn byw yn bennaf yn y canolfannau trefol sy'n cynnwys dinas Casnewydd a threfi Glynebwy, Trefynwy a Chwmbrân. Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd uchel sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r sir bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys porthladd môr.

Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 181,000 o ardaloedd bach a elwir yn ardaloedd allbwn cyfrifiad (OA). Diffiniwyd y rhain gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn casglu ynghyd bobl â nodweddion tebyg ac i gynnwys, ar gyfartaledd, 125 o gartrefi. Mae maint yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan bob OA yn amrywio yn ôl dwysedd y boblogaeth mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mae'r OA mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys 20,166 o hectarau, a mae'r un lleiaf yn cynnwys llai na 0.02 hectar. Mae maes pêl-droed yn cynnwys oddeutu 0.75 hectar.

Mae 1,884 o ardaloedd OA yng Ngwent â maint cyfartalog o 82 o hectarau sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87 o hectarau. Er bod y mwyafrif (56 y cant) o ardaloedd OA yng Ngwent yn gymharol fach ar lai na 10 hectar, mae cyfran lai (45 y cant) yn fawr iawn o ran maint (dros 100 o hectarau) sy'n arddangos y cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Canolbwyntir yr ardaloedd OA lleiaf yng Nghasnewydd, gyda'r  gwasgariad mwyaf ar draws yr ardaloedd gwledig â phoblogaeth fwy gwasgaredig.

Y fantais o ddadansoddi ar y lefel ardal allbwn yw ei fod yn cefnogi ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae gwahaniaethau o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol pobl sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd OA yn arwain at ymddygiadau gwahanol, gan gynnwys y defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn yr wybodaeth a gesglir mewn setiau data mawr megis y cyfrifiad, data pwynt diddordeb yr Arolwg Ordnans (OS) a ffynonellau lled-economaidd eraill a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mae HMIC wedi bod yn gweithio gyda'r London School of Economics i ddefnyddio technegau econofetrig i roi model ystadegol a rhagweld lefel y galwadau adweithiol ar gyfer gwasanaethau heddlu ym mhob OA yng Nghymru a Lloegr. Trwy ddefnyddio data o ddigwyddiadau'r heddlu a nifer o filoedd o nodweddion (newidion) a dynnir o ddata cyfrifiad, data pwynt diddordeb OS a setiau data llai eraill ar gyfer pob OA, mae wedi bod yn bosibl rhagweld y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA a

phenderfynu pa mor heriol y bydd pob OA yn debygol o fod i’w blismona. Hefyd rydym wedi defnyddio prisiau tai o’r Gofrestrfa Tir fel dangosydd procsi ar gyfer cyfoeth. Mae gan Gwent bris tŷ canolrifol, wedi’i seilio ar yr ardaloedd OA sydd wedi cael trafodyn eiddo o fewn y 12 mis diwethaf, o £125,856 sy’n is na’r canolrif ar gyfer Cymru a Lloegr (£230,358). Mae gan Gwent 27.9% o’i ardaloedd OA o fewn y 10% isaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol, tra bod 4.6% o ardaloedd OA o fewn y 10% uchaf o brisiau tŷ ar y lefel genedlaethol (ac 1.1% o ardaloedd OA o fewn yr 1% uchaf). Mae hyn yn awgrymu bod ardaloedd mawr o dai gwerth is ac amddifadedd, gyda chyfran lai o gyfoeth a phrisiau tai uchel.

Nid yw’r galwadau am wasanaethau heddlu yr un ym mhob ardal o Gymru a Lloegr. Mae ein dadansoddiad wedi datgelu bod nodweddion demograffig-gymdeithasol ardal yn dylanwadu ar y galwadau am wasanaethau heddlu yn yr ardal honno.

Ym mhob heddlu, mae crynhoad o alwadau rhagweledig mewn nifer fach o’i ardaloedd OA. O ystyried Cymru a Lloegr fel cyfanrwydd mae’r 1,811 (1 y cant) mwyaf heriol o’r rhain yn cyfrif am 10.8 y cant o’r holl ddigwyddiadau rhagweledig. Rydym wedi dynodi’r ardaloedd hyn fel rhai sy’n cyflwyno her uchel iawn ac wedi canfod y’u nodweddir gan grynhoad uchel o bobl yn byw, gweithio, cymdeithasu neu deithio yn yr ardal. Mae nodweddion sy’n achosi a/neu ddangos crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig, safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, mae’r nodweddion hyn wedi’u cyfuno.

Mae 0.3 y cant o’r ardaloedd o her uchel ar y lefel genedlaethol yng Ngwent. Mae’r un y cant o ardaloedd OA sy’n cyflwyno’r her uchaf yn y llu’n cyfrif am 4.2 y cant o ddigwyddiadau rhagweledig Gwent, a mae’r galwadau rhagweledig hyn yn debygol o ddigwydd mewn dim ond 0.1 y cant o holl ardal y llu.

O fewn Gwent:

- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ddigwyddiadau yn isel iawn o gymharu â’r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o droseddu’n isel iawn yn is na’r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn isel iawn o gymharu â’r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae’r gyfran o ardaloedd OA sy’n cyflwyno her uchel iawn i’r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth

mewn digwyddiadau yn isel iawn o gymharu â'r lefel genedlaethol o un y cant; a

- mae'r gyfran o ardaloedd OA sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel ragweledig o alwadau argyfwng a blaenoriaeth am gymorth mewn troseddau'n is na'r lefel genedlaethol o un y cant;

Fel dangosydd o'r her i'r heddlu gyrraedd dinasyddion ym mhob rhan o Went rydym wedi cyfrifo'r amser teithio a phellter cyfartalog o bwynt canolog ardal y llu i ganol pob un o'r 1,884 o ardaloedd OA. Mae'r cyfrifiadau hyn o bellter ac amser wedi'u seilio ar ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd o dan amodau a chyflymderau gyrru arferol a maent yn dangos maint yr ardal ac ansawdd ei rhwydwaith ffyrdd.

Mae gan Went 112 milltir o draffyrdd a chefnffyrdd ond mae'r pellter teithio cyfartalog o 13 milltir (yr hwyaf yw 32 milltir a'r byrraf yw 0.1 milltir) a'r amser teithio cyfartalog o 28 munud o ganol y llu i bob OA yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol priodol o 17 milltir a 30 munud. Mae hyn yn arddangos maint a chymhlethdod Gwent.

Er y gall y crynhoad o alwadau mewn nifer fach o leoliadau (yn cwmpasu ardal fach iawn) fod yn ddefnyddiol o ran canolbwyntio adnoddau, nid yw'n gyfanrwydd y galw. Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n ymestyn y tu hwnt i'r ardaloedd hynny sy'n cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu ac yn cynnwys yr ardaloedd lleiaf heriol a mwyaf anghysbell. Mae'r her o ddarparu gwasanaethau ledled Gwent yn swyddogaeth sy'n cynnwys llawer o bethau gan gynnwys maint a thopograffeg yr ardal, y rhwydwaith ffyrdd a faint o dagfeydd sydd ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar sut mae adnoddau'r heddlu'n cael eu trefnu a'u rheoli - er enghraifft ble lleolir swyddogion heddlu a'u patrymau gweithio.